



CABINET FEL YMDDIRIEDOLWYR SEFYDLIAD Y GLOWYR COED DUON

COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWDYD YN NHŶ PENALLTA, TREDOMEN AR DDYDD MERCHER 27AIN GORFFENNAF 2016 AM 3.23 P.M.

YN BRESENNOL:

Y Cynghorydd K. V. Reynolds – Cadeirydd

Cynghorwyr:

C. Forehead (Adnoddau Dynol and Llywodraethu/Rheoli Busnes), N. George (Gwasanaethau Hamdden a'r Gymuned), D. Havard (Addysg a Dysgu Gydol Oes), K. James (Adnewyddu, Cynllunio a Datblygiad Cynaliadwy), D.V. Poole (Tai), T. Williams (Priffyrdd, Cludiant a Pheirianeg) a R. Woodyatt (Gwasanaethau Cymdeithasol).

Ar y cyd gyda:

C. Burns (Prif Weithredwr Dros Dro), N. Scammell (Cyfarwyddwraig dros dro Gwasanaethau Corfforaethol ac Adran 151), C. Harrhy (Cyfarwyddwr Cymunedau Corfforaethol).

Hefyd yn Bresennol:

D. Whetter (Pennaeth Adnewyddu Dros Dro) a C. Evans (Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor).

1. YMDDIHEURIADAU DROS ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorydd D.T. Hardacre, Mrs B. Jones a D. Street.

2. DATGANIADAU O DDIDDORDEB

Ni chafwyd datganiadau o ddiddordeb ar ddechrau nac yn ystod y cyfarfod.

3. STATWS ELUSENNOL SEFYDLIAD Y GLOWYR COED DUON

Cynghorodd yr Adroddiad yr Aelodau am y gofynion statudol sy'n ymwneud â statws elusennol Sefydliad y Glowyr Coed Duon a gofynnwyd am gymeradwyaeth i weithredu mesurau newydd i sicrhau cydymffurfiaeth â'r gyfraith elusennau o ran cyflwyno'r cyfrifon. Yn ogystal, ystyriodd yr adroddiad argymhellion yn ymwneud â rheolaeth barhaus Sefydliad y Glowyr Coed Duon a chyfrifoldebau'r Cyngor fel Ymddiriedolwr a'u gosod allan.

Cafodd Sefydliad y Glowyr ei drosglwyddo fel ymddiriedolaeth elusennol i Gyngor Bwrdeistref Islwyn (ac yn ddiweddarach i Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili) ac fe'i cofrestrwyd fel elusen

ar 13 Tachwedd ar 1990.

Mae gan yr awdurdod lleol, yn gweithredu fel ymddiriedolwr corfforaethol, ddyletswydd gorfforaethol i weithredu'r elusen yn unol â'r ddogfen lywodraethol ac mae ganddo rwymedigaeth gyfreithiol i roi cyfrif am gyllid yr elusen yn unol â Deddf Elusennau 2011.

Mae'r Comisiwn Elusennau wedi nodi yn ddiweddar bod y Cyngor, fel unig ymddiriedolwr, ddim yn rhoi cyfrif nac adrodd ar yr elusen ar wahân yn unol â gofynion Deddf Elusennau 2011, ac felly mae angen mesurau newydd er mwyn egluro perthynas yr awdurdod lleol â'r elusen er mwyn bodloni'r Comisiwn Elusennau fod y cyngor yn cyflawni ei gyfrifoldeb yn unol â'r gyfraith elusennau.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhellion yn yr adroddiad yn cael eu cymeradwyo. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

PENDERFYNWYD am y rhesymau a gynhwysir yn Adroddiad y Swyddog: -

- (i) Cabinet y parhau i weithredu fel Ymddiriedolwyr Sefydliad y Glowyr Coed Duon;
- (ii) mae rheolaeth dydd i ddydd Sefydliad y Glowyr Coed Duon yn gweithredu o dan Reolwraig y Theatr (wedi'i goruchwyllo gan Bennaeth Adfywio Dros Dro) ac mae adroddiadau cyfnodol yn cael eu cyflwyno i'r Cabinet fel Ymddiriedolwyr;
- (iii) mae'r cynnig bod y gwaith paratoi a chyflwyno'r datganiad cyfrifon blynyddol a'r adroddiad ar gyllid Sefydliad y Glowyr Coed Duon i'r Comisiwn Elusennau (mewn fformat sy'n cydymffurfio â'r Datganiad o'r Arfer a Argymhellir (gan gynnwys archwiliad annibynnol neu archwiliad o'r cyfrifon)), yn cael ei ddirprwyo i Bennaeth Cyllid Corfforaethol, yn cael ei gymeradwyo
- (iv) i drefnu cyfarfodydd gyda'r Cabinet fel Ymddiriedolwyr i drafod rheolaeth strategol Sefydliad y Glowyr Coed Duon a fydd yn cynnwys ystyriaeth o ganlyniadau'r Prosiect Gwella Busnes fel yr amlinellir ym mharagraff 6.3 o'r adroddiad.

Terfynwyd y cyfarfod am 3.30pm

CADEIRYDD